Gwaredu prysgwydd ym Mhen-bre i wella'r twyni ar gyfer bioamrywiaeth

Mae prysgwydd yn darparu fflach o wyrddni yn ein hardaloedd tywodlyd, ond mae gormod o brysgwydd yn mygu'r twyni tywod ac yn cael effaith andwyol ar y planhigion arbenigol a'r infertebratau sy'n byw yno. Yn ystod y gaeaf hwn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwaredu rhywogaethau anfrodorol ymledol o ardaloedd o'r twyni tywod ym Mhen-bre i helpu bywyd gwyllt i ffynnu.

Mae'r arfordir o amgylch Pen-bre yn gartref i 20% o'r holl blanhigion yng Nghymru ac mae'n cynnwys system dwyni tywod eang. Mae twyni tywod yn cael eu rhestru fel y math o gynefin sydd fwyaf mewn perygl o golli bioamrywiaeth yn Ewrop.

Mae'r prosiect Dynamic Dunescapes, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac a ddarperir yng Nghymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn gweithio ym Mhen-bre gyda Gwasanaethau Hamdden Awyr Agored Cyngor Sir Gâr i wella cyflwr y twyni hyn ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae rhywogaethau anfrodorol, megis y planhigyn prysgwydd dwys rhafnwydden y môr, yn ymledol ac maen nhw'n tyfu'n sydyn yn y system dwyni hon - gan ymledu ymhellach ar draws ardaloedd eang o'r twyni bob blwyddyn. Mae llawer o fywyd gwyllt prin ac arbenigol y twyni angen tywod noeth neu gynefin glaswelltir isel i oroesi, ac mae'n mynd ar goll neu'n methu â chystadlu gyda'r prysgwydd. Os nad yw twf prysgwydd yn cael ei reoli, bydd yn achosi i rywogaethau megis madfallod, tegeirianau a thrilliw'r twyni ddioddef ac i ddiflannu o'n twyni tywod.

Bydd gwaredu prysgwydd mewn lleoliadau penodol yn helpu i adfer y mathau o gynefinoedd angenrheidiol ar gyfer y rhywogaethau hyn, a bydd y gwaith hwn yn chwarae rhan mewn sicrhau dyfodol iach llawn bioamrywiaeth i'r twyni tywod ym Mhen-bre. Bydd gwella'r cyflwr ecolegol yma'n cynyddu gwytnwch y dirwedd arfordirol hon i wrthsefyll bygythiadau eraill, megis tywydd eithafol ac amodau cyfnewidiol o ganlyniad i newid hinsawdd yn y dyfodol.

Bydd cam cyntaf y gwaith hwn yn cymryd lle ym Mharc Gwledig Pen-bre o amgylch Maes Parcio 8 a bydd yr ail gam yn cymryd lle ar y twyni blaen o flaen Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru sy'n cael ei rheoli gan CNC. Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn ystod wythnos olaf Tachwedd a bydd yn parhau am bythefnos. Bydd Factory Road yn cau dros dro y tu allan i'r Parc Gwledig am wythnos – gan ail agor ar 5 Rhagfyr.

Dywedodd Ruth Harding, Uwch Swyddog Amgylcheddol gyda Cyfoeth Naturiol Cymru:

> *"Mae rheoli Rhafnwydden y Môr yn bwysig er mwyn gwella cynefinoedd glaswelltir ar y twyni ym Mhen-bre. Mae Cyngor Sir Gâr a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud y math yma o waith rheoli cynefinoedd dros nifer o flynyddoedd sydd wedi arwain at adfer yr ardal i gynnig glaswelltir twyni sy'n llawn gwahanol rywogaethau planhigion. Gallwch fwynhau'r rhain ar eu gorau yn ystod misoedd yr haf o fewn Gwarchodfa Natur Twyni Tywod a Morfa Pen-bre. Fel rhan o brosiect Dynamic Dunescapes, rydym ni bellach yn parhau gyda'r gwaith hwn, a fydd yn arwain at gynnydd cyffredinol mewn cynefin glaswelltir ar y twyni."*

Dywedodd y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, Aelod Cabinet Cyngor Sir Gâr sy'n gyfrifol am hamdden:

> *"Er bod prysgwydd yn gynefin gwerthfawr, mae angen ei reoli er mwyn ei gadw mewn cyflwr da ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd torri'r prysgwydd yn ôl yn sicrhau nad yw'n ymledu i ardaloedd lle nad yw'n ddymunol a/neu le y gallai ddinistrio cynefinoedd eraill."*

Nid Dynamic Dunescapes yw'r unig brosiect sy'n gweithio ar adfer twyni tywod pwysig Pen-bre. Mae prosiect Twyni Byw a ariennir gan gronfa LIFE yr UE, ac a reolir gan CNC, hefyd wedi bod yn rheoli'r twyni tywod er mwyn gwella amodau ar gyfer bywyd gwyllt dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddau brosiect yn gweithio'n agos i adeiladu ar waith ei gilydd ac i gefnogi'r gwaith hwnnw.

- Diwedd -

Am sylwadau a chyfleoedd ar gyfer y wasg, cysylltwch â:

Emma Brisdion, Swyddog Cyfathrebu, Dynamic Dunescapes emma.brisdion@naturalengland.org.uk

- Cyfryngau -

Delweddau: Defnydd unigol yn unig

Mae ystod o ddelweddau a fideo ar gael i'w lawr lwytho o'r ffolder hwn ar Google Drive, gan gynnwys:
https://drive.google.com/drive/folders/1WZY9VsTCWfi3o5YkQAEBHpoVivFjWJeg?usp=sharing

Trilliw'r twyni ym Mhen-bre – un o'r rhywogaethau prydferth a fydd yn elwa o'r gwaith hwn i adfer y twyni a gwaredu prysgwydd ym Mhen-bre. Llun: Ruth Harding

Ardaloedd o Rafnwydden y Môr wedi tyfu'n ddwys i'w weld ym Mharc Gwledig Pen-bre. Llun: Ruth Harding

Glaswelltir twyni wedi'i adfer ar ôl gwaredu rhafnwydden y môr a phrysgwydd yn ystod gwaith blaenorol

Tegeirianau'n ffynnu mewn glaswelltir twyni wedi'i adnewyddu ym Mharc Gwledig Pen-bre. Llun: Paul Aubrey

- Nodiadau ychwanegol i Olygyddion –

Dynamic Dunescapes

Mae **Dynamic Dunescapes** yn bartneriaeth sy'n adfer twyni tywod ledled Cymru a Lloegr er bydd bywyd gwyllt, pobl a chymunedau. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE. Partneriaid y prosiect yw Natural England, Plantlife, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cornwall Wildlife Trust, Lincolnshire Wildlife Trust a Cumbria Wildlife Trust.

Mae twyni arfordirol Cymru a Lloegr yn gynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer bywyd gwyllt, ac yn cael eu rhestru fel un o'r amgylcheddau dan fwyaf o fygythiad o golli bioamrywiaeth yn Ewrop. Mae'r twyni'n noddfa i rywogaethau prin megis tegeirian y fign galchog, llyffant y twyni a madfall y tywod. Ond, mae dulliau o reoli twyni sy'n cefnogi sefydlogi'r twyni dros nifer o ddegawdau wedi golygu bod llystyfiant yn tyfu'n wyllt dros y twyni. Rydym ni bellach yn sylweddoli bod hyn yn peryglu bywyd gwyllt. Mae angen i dwyni tywod iach gael rhyddid i symud a bod yn ddynamig. Mae nifer o rywogaethau angen ardaloedd o dywod noeth i ffynnu, felly bydd y prosiect hwn yn adfywio'r twyni trwy greu ardaloedd o dywod agored. Mae creaduriaid arbenigol eraill angen i ni wella'r llaciau twyni, gan fod y pantiau hyn y tu ôl i'r twyni sy'n aml yn llawn dŵr yn gynefinoedd pwysig ar gyfer amffibiaid ac adar. Bydd rhywogaethau ymledol hefyd yn cael eu gwaredu o'r twyni a glaswelltir y twyni, er mwyn gwella amodau i blanhigion brodorol prin ffynnu. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr lleol a chenedlaethol medrus, ac yn cynnwys ysgolion a grwpiau lleol, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr o bob oedran a gallu i helpu adfywio ein twyni

Dilynwch @dynamicdunes ar Twitter, Facebook ac Instagram.